

2024 Rhif (Cy.)

2024 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A483
(Cilfan y Gerbyttfordd Tua'r De ar
y Ffordd Ddynesu o'r De at
Gylchfan Pont Abraham, Sir
Gaerfyrddin) (Gwahardd Troi i'r
Dde a Chyfyngu ar
Aros) 2024

The A483 Trunk Road
(Southbound Carriageway Lay-by
on the Southern Approach to Pont
Abraham Roundabout,
Carmarthenshire) (Prohibition of
Right Hand Turns and Restriction
of Waiting) Order 2024

Gwnaed 17 Medi 2024

Made 17 September 2024

Yn dod i rym 18 Medi 2024

Coming into force 18 September 2024

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A483, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a 2(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A483 trunk road, in exercise of the powers conferred upon them by sections 1(1), 2(1) and 2(2) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddogion Heddlu Dyfed-Powys ac wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol â rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchymynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(2).

The Welsh Ministers have consulted with the Chief Officers of Dyfed-Powys Police and given public notice of their intention to make this Order in accordance with regulations 5(1) and 6(1) of the Secretary of State's Traffic Orders (Procedure) (England and Wales) Regulations 1990(2).

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cilfan y Gerbyttfordd Tua'r De ar y Ffordd Ddynesu o'r De at Gylchfan Pont Abraham, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Troi i'r Dde a Chyfyngu ar Aros) 2024 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 18 Medi 2024.

1. The title of this Order is the A483 Trunk Road (Southbound Carriageway Lay-by on the Southern Approach to Pont Abraham Roundabout, Carmarthenshire) (Prohibition of Right Hand Turns and Restriction of Waiting) Order 2024 and this Order comes into force on 18 September 2024.

(1) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 17 a 18 o Atodlen 8 iddi, a diwygiwyd adran 1(1) gan baragraff 36(1) o Atodlen 22 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(2) O.S. 1990/1656.

(1) 1984 c. 27; sections 1(1), 2(1) and (2) were amended by the New Roads and Street Works Act 1991 (c. 22), section 168 and Schedule 8, paragraphs 17 and 18, section 1(1) was amended by paragraph 36(1) of Schedule 22 to the Environment Act 1995 (c. 25). By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) S.I. 1990/1656.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “cerbyttfordd” (“*carriageway*”) yw ffordd draffig sy’n ffurfio priffordd neu wedi ei chynnwys mewn priffordd, gan ei bod yn ffordd (ac eithrio llwybr beicio) y mae gan y cyhoedd hawl tramwy drosto ar gyfer tramwyo cerbydau;

ystyr “cilfan” (“*lay-by*”) yw unrhyw ran o’r gefnffordd a fwriedir fel man aros i gerbydau â ffin gyfan neu rannol iddi o farciau ffordd o’r math a ddangosir yn niagram 1010 o Ran 4 o Atodlen 11 i Reoliadau Arwyddion Traffig a Chyfarwyddydau Cyffredinol 2016(1);

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion.

Gwahardd Troi i’r Dde

3. Ni chaiff unrhyw berson beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd sy’n mynd ar y gerbyttfordd tua’r gogledd droi i’r dde i gael mynediad, ar y naill ben neu’r llall, i’r gilfan a ddisgrifir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

Cyfyngu ar Aros

4. Ac eithrio fel y darperir yn erthygl 5, ni chaiff unrhyw berson beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros am gyfnod hwy na dwy awr ar unrhyw adeg gyda dim dychwelyd o fewn un awr ar y darn o’r gilfan a ddisgrifir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

Esemptiadau

5. Caiff person beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 3, er ei fod wedi ei wahardd rhag parcio yno, cyhyd ag sy’n angenrheidiol i alluogi—

- (a) person i fynd i mewn i gerbyd, neu i ddod allan ohono;
- (b) nwyddau i gael eu llwytho ar y cerbyd neu eu dadlwytho ohono;
- (c) y cerbyd i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o’r gweithrediadau a ganlyn:
 - (i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;
 - (ii) symud ymaith unrhyw rwystr i draffig;

Interpretation

2. In this Order—

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A483 Swansea to Manchester trunk road;

“carriageway” (“*cerbyttfordd*”) means a traffic way constituting or comprised in a highway, being a way (other than a cycle track) over which the public have a right of way for the passage of vehicles;

“lay-by” (“*y cilfan*”) means any area of the trunk road intended for the waiting of vehicles, which are bounded either wholly or partly by road markings of the type shown in diagram 1010 of Schedule 11, part 4 to The Traffic Signs Regulations and General Directions 2016(1).

Prohibition of Right-Hand Turns

3. No person may cause or permit any vehicle proceeding on the northbound carriageway to make a right-hand turn to access, at either end, the lay-by described in the Schedule to this Order.

Restriction of Waiting

4. Except as provided in article 5, no person may cause or permit any vehicle to wait for a period longer than two hours at any time with no return within one hour on the length of the lay-by described in the Schedule to this Order.

Exemptions

5. A person may cause or permit any vehicle to wait on the length of the trunk road specified in article 3, whilst prohibited from parking there, for so long as may be necessary to enable—

- (a) a person to board or alight from the vehicle;
- (b) goods to be loaded on or unloaded from a vehicle;
- (c) the vehicle to be used in connection with any of the following operations:
 - (i) building, industrial or demolition operations;
 - (ii) the removal of any obstruction to traffic;
 - (iii) the maintenance, improvement or reconstruction of the said lengths of trunk road; or

- (iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r darnau hynny o'r gefnffordd; neu
- (iv) gosod, codi, addasu neu atgyweirio yn y darnau o'r gefnffordd, neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw gyfarpar cyfathrebu electronig fel y'i diffinnir ym mharagraff 5 o Atodlen 3A i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003(1);

(d) y cerbyd i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â swyddogaethau statudol;

(e) y cerbyd i gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej sydd ar y darnau o'r gefnffordd neu'n gyfagos iddynt;

(f) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu; neu

(g) y cerbyd i stopio pan fo'r person sydd â rheolaeth arno'n gwneud yr hyn a ganlyn:

- (i) pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo stopio;
- (ii) pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain;
- (iii) pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen; neu
- (iv) pan fo'n gweithredu yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

17 Medi 2024



Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

- (iv) the laying, erection, alteration, or repair in, or in land adjacent to the lengths of the trunk road of any sewer or of any main, pipe or apparatus for the supply of gas, water or electricity or any electronic communications apparatus as defined in paragraph 5 of Schedule 3A to the Communications Act 2003(1);

(d) the vehicle to be used in the service of a local authority or a water authority in pursuance of statutory functions;

(e) the vehicle to take petrol, oil, water or air from any garage situated on or adjacent to the lengths of the trunk road;

(f) the vehicle to be used for fire brigade, ambulance or police purposes; or

(g) the vehicle to stop when the person in control of it:

- (i) is required by law to stop;
- (ii) is obliged to stop in order to avoid an accident;
- (iii) is prevented from proceeding; or
- (iv) is acting upon the direction, or with the permission, of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for the Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated

17 September 2024



Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

(1) 2003 p. 21. Mewnosodwyd Atodlen 3A gan baragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 (p. 30).

(1) 2003 c. 21. Schedule 3A was inserted by paragraph 1 of Schedule 1 to the Digital Economy Act 2017 (c. 30).

YR ATODLEN

Y darn o gilfan y gerbyttfordd tua'r de sy'n ymestyn o bwynt 174 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt Cylchfan Pont Abraham hyd at bwynt 317 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt Cylchfan Pont Abraham, Sir Gaerfyrddin.

SCHEDULE

The length of the southbound carriageway lay-by that extends from a point 174 metres northeast of the centre point of the Pont Abraham Roundabout to a point 317 metres northeast of the centre point of the Pont Abraham Roundabout, Carmarthenshire.

